COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAUA GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 8 AWST 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd R M Granville – Cadeirydd

A R Berrow S Easterbrook J E Pratt

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| C L C Davies | D M Hughes | M R John | MJ Kearn S Griffiths |
| W J Kendall | J Llewellyn-Hopkins | R J Smith | A Wathan |
| R Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths, D T Harrison and M L Hughes

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gillian Newson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Lee Evans | Prif Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Gweithrediadau Bychan |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu |
| Robert Morgan | Prif Swyddog Rheoli Datblygiadau Priffyrdd |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Philip Thomas | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu |
| Leigh Tuck | Prif Swyddog Rheoli Datblygiadau Priffyrdd |
| Dion Douglas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Adam Provoost | Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Strategol |

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

Datganiadau o Fuddiant

## 33. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-<br><br>Y Cynghorydd D Harrison<br>Y Cynghorydd M Hughes<br>Y Cynghorydd H Griffiths |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 34. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Y Cynghorydd A Wathan - ddiddordeb personol yn eitem 8 a 9 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio.<br><br>Y Cynghorydd S Easterbrook - ddiddordeb personol yn eitem 8 a 9 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio.<br><br>Y Cynghorydd R Smith - diddordeb personol yn eitem 10 gan i un o'i etholwyr gael ei grybwyll yn rhan Apeliadau o'r adroddiad.<br><br>Y Cynghorydd C Davies - diddordeb personol fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr a Chynllunio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 35. Ymweliadau Safle

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cadarnhau dydd Mercher 18/09/24 ar gyfer arolygiadau safle arfaethedig oedd yn codi yn y cyfarfod, neu'n cael eu nodi cyn cyfarfod y Pwyllgor nesaf gan y Cadeirydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 36. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau dyddiedig 27 Mehefin 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 37. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyfeiriodd y siaradwyr canlynol o blith y cyhoedd at y ceisiadau y cyfeirir atynt isod:<br><br>Y Cynghorydd Ian Williams (aelod Ward) - P/24/286/FUL – 30 Heol St. Marie, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3EE<br><br>James Driscoll (ymgeisydd)<br><br>Y Cynghorydd S Bletsoe (aelod Ward) - P/24/233/FUL – 65 Heol Acland, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TF (Darllenodd Cyfreithiwr, Cynllunio ddatganiad Y Cynghorydd Bletsoe yn ei absenoldeb).<br><br>Eric Sullivan (gwrthwynebydd) - P/24/233/FUL – 65 Heol Acland, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TF (Darllenodd Cyfreithiwr, Cynllunio ddatganiad Y Cynghorydd Blestoe yn ei absenoldeb).<br><br>James Wilson (ymgeisydd) |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

## 38. Taflen Ddiwygiadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 39. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nodir yr adroddiad yn amlinellu Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 40. P/24/286/FUL - 30 Heol St Marie, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3EE

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Newid defnydd o dŷ annedd i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) Dosbarth Defnydd C4 (mwyafswm o 4 person)<br><br>Yn amodol ar gynnwys y Nodyn d ychwanegol.<br><br>d. Dylai'r ymgeisydd ddarparu cyfleusterau domestig digonol a phriodol yn cynnwys ystafell ymolchi a chyfleusterau toiled ar gyfer defnydd preswylwyr y tŷ amlfeddiannaeth. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 41. P/24/233/FUL - 65 Heol Acland, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TF

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Newid defnydd o ddosbarth defnydd C3 (Tŷ Annedd) i ddosbarth defnydd C4 (Tŷ Amlfeddiannaeth) |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 42. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | (1) Nodi'r apeliadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y dengys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.<br><br>(2) Bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apêl ganlynol, wedi GWRTHOD yr apêl:-<br><br>Apêl Rhif. – CAS-02897-L2J7K9 (1992)<br><br>Testun yr Apêl - Estyniad Dau Lawr yn y cefn a'r ochr; Estyniad Un Llawr yn y cefn; Porth Mynediad Ochr a Mynediad Dreif Lletach gyda chwrb isel - Ailgyflwyno Cais wedi'i Wrthod P/23/393/Ful: 32 Heol Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

## 43. Canllawiau Cynllunio Atodol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Strategol adroddiad, oedd â'r diben o ddiweddaru Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygiad ar baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) i gynorthwyo polisïau a cheisiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (LDP) newydd a fabwysiadwyd.<br><br>Amlinellwyd peth gwybodaeth gefndirol yn yr adroddiad ac yna cadarnhawyd bod Tîm Cynllunio'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio ar ddwyn y dogfennau SPG ynghyd, a fyddai, maes o law, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfres o weithdai, ac fel sy'n arferol ar hyn o bryd, gofynnir i Aelodau wirfoddoli i helpu gyda drafftio'r dogfennau SPG a gweithredu fel 'hyrwyddwyr' yn y maes penodol hwnnw.<br><br>Disgrifiwyd y tri SPG cyntaf sydd i'w creu ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Enwebwyd yr Aelodau canlynol i 'Hyrwyddo' creu'r tri SPG cyntaf:-<br><br>• Datblygiadau Tai Newydd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored - Y Cynghorwyr J Pratt ac A Berrow<br>• Tai Fforddiadwy - Y Cynghorydd R M Granville<br>• Datblygiadau Masnachol a Manwerthu - Y Cynghorydd S Easterbrook<br>• Tai Amlfeddiannaeth (SPG ychwanegol a gadarnhawyd yn y cyfarfod) - Y Cynghorydd S Griffiths |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

## 44. Cofnod Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | <u>PENDERFYNWYD</u>: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn amlinellu'r Rhaglen Hyfforddi Aelodau ar gyfer y misoedd sydd i ddod, a nodi ymhellach y bydd sesiwn ychwanegol yn ymdrin â Chanllawiau Cynllunio Atodol (SPG). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

## 45. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Awst 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:34.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**